



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

MSc (PgD, PgC) Rheoli Logisteg a Chadwyni Cyflenwi Rhyngwladol

MSc (PgD, PgC) Rheoli Peirianeg Cynhyrchu

CYFARWYDDIADAU YMUNO

AR GYFER Y FLWYDDYN ACADEMAIDD 2018/2019

Annwyl Fyfrwyr

CROESO I YSGOL REOLI CAERDYDD YM MHRIFYSGOL METROPOLITAN CAERDYDD

Llongyfarchiadau! Rwyf i, Deon y Gyfadran, wrth fy modd eich bod yn ymuno â ni yn yr Ysgol Reoli – rydym yn edrych ymlaen yn fawr at gael eich helpu i fynd o nerth i nerth.

Rydych wedi cael cynnig lle, nid yn unig o ganlyniad i'ch llwyddiant academaidd, ond hefyd am ein bod yn credu eich bod am ddatblygu eich hunan drwy ymroi i ddysgu, i waith caled ac i gael hwyl. Ac ni fydd prinder cyfleoedd i chi gael hwyl yma ym mhrifddinas wych Caerdydd!

Byddwch yn dechrau ar siwrnai oes drwy astudio gyda ni. Fe gewch ei bod yn siwrnai lle y bydd eich deallusrwydd, egni, uchelgais a'n gwybodaeth arbenigol ninnau yn cyfuno i roi'r cyfle i chi lwyddo pan fyddwch yn ein gadael i fynd i fyd busnes.

Gyda ni, fe ddewch i weld eich bod yn byw ac yn gweithio mewn amgylchedd ysgogol gyda thiwtoriaid a fydd yn dod â'u brwdfrydedd, eu sgiliau a'r wybodaeth a enillwyd drwy ymdrech, i'ch dysgu. Rwy'n gwybod bod ein cyrsiau'n cael eu profi yn erbyn y rhai gorau y bydd prifysgolion modern yn y DU yn eu cynnig ac yn erbyn gofynion cyflogwyr a phrif sefydliadau proffesiynol.

Yn ystod eich cyfnod yma, cewch bob cyfle i adeiladu CV sy'n ddeniadol i gyflogwyr. Yn y dyddiau hyn, maen nhw'n chwilio nid yn unig am sgiliau 'technegol' ond hefyd am sgiliau arwain, sgiliau pobl a sgiliau cyfathrebu y bydd bron pob swydd dda yn galw amdanynt. Yn ôl un cyflogwr lleol blaenllaw, "rydym yn chwilio am bobl ddiddorol sy'n gwneud pethau boed hynny'n gerddoriaeth, chwaraeon [neu] elusen". Heriwch eich hunan i ddangos eich bod yn un o'r bobl ddiddorol hynny – gan ddechrau y diwrnod y cyrhaeddwch ar ein campws!

Edrychaf ymlaen i'ch gweld ac i weithio gyda chi.

Dymuniadau gorau

YR ATHRO DAVID BROOKSBANK

Croeso oddi wrth Gyfarwyddwr y Rhaglen

Rwyf wrth fy modd eich bod wedi penderfynu ymuno â rhaglen MSc Rheoli Logisteg a Chadwyni Cyflenwi Rhyngwladol / MSc Rheoli Peirianeg Cynhyrchu, Prifysgol Metropolitan Caerdydd. Mae ein rhaglenni MSc yn unigryw ac yn nodedig gan eu bod wedi'u dylunio a'i datblygu mewn aliniad ag anghenion diwydiant a chyrrff proffesiynol. Un o nodweddion cryfaf a mwyaf deniadol y rhaglen fydd ei ffocws ar gymorth a lles myfyrwyr. Os dewch ar draws unrhyw broblemau na allwch eu datrys, cysylltwch â fi ar ebost ajthomas@cardiffmet.ac.uk neu dros y ffôn 029 2020 5233 a gwnaf fy ngorau glas i sicrhau y gallwn gael hyd i ateb cyflym a pharhaol i'ch problemau.

Mae Rheoli Cadwyni Cyflenwi a Rheoli Peirianeg Cynhyrchu yn ddisgyblaethau technegol allweddol lle mae galw mawr iawn gan fusnesau am reolwyr uchel eu hyfforddiant a'u sgiliau yn y meysydd hyn. Bydd angen rheolwyr cadwyni cyflenwi a rheolwyr cynhyrchu ar gwmnïau i sicrhau eu bod yn cael canlyniadau busnes sy'n eu cadw o flaen unrhyw gystadleuaeth yn gyson yn economi fyd-eang cystadleuol ac anodd iawn.

Bydd y strategaethau, yr offer a'r technegau a gyflawnir ar y rhaglenni hyn yn eich galluogi i ymarfer a gweithredu mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd gwahanol gan eich galluogi i'w gwerthuso'n effeithiol ac mewn ffordd adeiladol mewn gwahanol gyd-destunau ystyrion. Byddwn yn defnyddio dull strwythuredig ac arloesol ar gyfer cyflawni cynnwys y cwrs ar y rhaglenni hyn er mwyn gwella eich astudio, eich dysgu a'ch datblygu.

Yn ystod eich cyfnod gyda ni byddwch yn elwa o ganlyniad i amrywiaeth o bethau newydd ar y rhaglenni. Gallwch ddisgwyl cael eich herio a'ch ymestyn ond hefyd gallwch ddisgwyl i'r manteision fod yn sylweddol ac yn ystyrion i chi. Mae byd busnes a rheoli yn gyffrous ac mae'r galw am Reolwyr Cadwyni Cyflenwi a Chynhyrchu yn fawr a bydd yn parhau i gynyddu yn y dyfodol. Mae ein staff academiaidd a finnau yn edrych ymlaen at gael rhannu ein gwybodaeth a'n sgiliau gyda chi ac rydym yn ymrwymedig i'ch helpu i gyrraedd eich potensial llawn yn rheolwyr proffesiynol effeithiol.

Hoffwn gloi drwy ddymuno pob lwc i chi ar y rhaglen rydych wedi gwneud cais i astudio arni. Gobeithio y bydd eich amser ar y rhaglen yn gyffrous i chi ac yn llawn gwybodaeth.

Diolch

Yr Athro Andrew Thomas

Cyfarwyddwr y Rhaglen MSc Rheoli Logisteg a Chadwyni Cyflenwi Rhyngwladol / MSc Rheoli Peirianeg Cynhyrchu

1. Tîm y Rhaglen

Arweinwyr y Modiwlau yw Tîm y Rhaglen ac maen nhw'n cydweithio i gyflawni'r addysgu ar y rhaglen. Rôl arweinydd modiwl yw bod yn arbenigwr pwnc a gallai arwain tîm o gyd-arbenigwyr, yn cymryd gweithdai/seminarau a fydd yn rhoi gwybod i fyfyrwyr am ddeunyddiau perthnasol sy'n cefnogi'r deilliannau dysgu gofynnol. Mae'r tabl canlynol yn dangos Arweinwyr y Modiwlau ar gyfer pob modiwl ar y rhaglenni.

Rhestr y Modiwlau ac Arweinwyr y Modiwlau			
Modiwl	Credyd	PEM/ISCLM	Arweinydd y Modiwl
Rheoli Prosiectau Peirianeg	20	PEM	Yr Athro Andrew Thomas
Arloesedd a Datblygu Cynhyrchion	20	PEM	Yr Athro Mark Francis
Logisteg mewn Cyd-destun Byd-eang	20	ISCLM	Dr Rachel Mason-Jones
Paradeimiau Cynhyrchu Uwch	20	PEM	Yr Athro Mark Francis
Rheoli Cynhyrchu a Gweithrediadau	20	PEM/ISCLM	Dr Rachel Mason-Jones
Rheoli a Pheirianeg Ansawdd	20	PEM/ISCLM	Yr Athro Andrew Thomas
Cyfraith Masnach Ryngwladol	20	PEM/ISCLM	Myo Win-Pe
Rheoli Cadwyni Cyflenwi	20	ISCLM	Dr Rachel Mason-Jones
Rheoli Arweinyddiaeth a Pherfformiad	20	ISCLM	Yr Athro Andrew Thomas
Adroddiad Technegol a Dadansoddi Adfyfyriol	60	PEM/ISCLM	Yr Athro Andrew Thomas

Aelod allweddol arall o Dîm y Rhaglen yw Matthew Tuck, Gweinyddwr y Rhaglen sydd wedi'i leoli yn Swyddfa'r Rhaglenni a Addysgir. Mae'r swyddfa yn 00.58 a dyna ddylai fod eich pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer pob ymholiad academiaidd. Gellir cael rhagor o gyngor a chefnogaeth oddi wrth Swyddfa Ymchwil yr Ysgol drwy Mrs Louise Ballantyne a Ms Adriana Snae (manylion cyswllt ar gael ar ddiwedd y ddogfen hon).

Oriau'r Swyddfa yw: Llun – Iau 9.00-5.00pm a Gwener 9.00-4.00pm. Bydd pob academydd a gweinyddwr yn gwneud ei orau i'ch helpu i ymdopi â'ch astudiaethau ac i lwyddo yn eich cymwysterau. Y ffordd orau i gael cymorth unigol yw drwy wneud apwyntiad unigol gyda phersonél allweddol.

Gwybodaeth am y Rhaglen

Dyma strwythur y rhaglen MSc Rheoli Logisteg a Chadwyni Cyflenwi Rhyngwladol:

Cyfnod Addysgu	Teitl y Modiwl	Cod y Modiwl	Credydau
Semester 1	Rheoli Cynhyrchu a Gweithrediadau	PEM7001	20
	Rheoli Peirianeg Ansawdd	PEM7002	20
	Cyfraith Masnach Ryngwladol	PEM7003	20
Semester 2	Rheoli Arweinyddiaeth a Pherfformiad	ISC7001	20
	Logisteg mewn Cyd-destun Byd-eang	ISC7000	20
	Rheoli Logisteg a Chadwyni Cyflenwi	ISC7002	20
Semester 3	Adroddiad Technegol a Dadansoddi Adfyfyriol	PEM7000	60

Dyma strwythur y rhaglen MSc Rheoli Peirianeg Cynhyrchu:

Cyfnod Addysgu	Teitl y Modiwl	Cod y Modiwl	Credydau
Semester 1	Rheoli Cynhyrchu a Gweithrediadau	PEM7001	20
	Rheoli Peirianeg Ansawdd	PEM7002	20
	Cyfraith Masnach Ryngwladol	PEM7003	20
Semester 2	Paradeimiau Cynhyrchu Uwch	PEM7004	20
	Rheoli Prosiectau Peirianeg	PEM7005	20
	Arloesedd a Datblygu Cynhyrchion	PEM7006	20
Semester 3	Adroddiad Technegol a Dadansoddi Adfyfyriol	PEM7000	60

Fel y dengys y tablau, bydd y myfyrwyr MSc Rheoli Logisteg a Chadwyni Cyflenwi Rhyngwladol a'r myfyrwyr MSc Rheoli Peirianeg Cynhyrchu yn cwblhau'r un modiwlau yn Semester 1 cyn rhannu yn Semester 2 i wneud eu pynciau penodol. Fe ddaw'r ddau grŵp o fyfyrwyr at ei gilydd yn Semester 3 i ymgymryd â'r modiwl Adroddiad Technegol a Dadansoddi Adfyfyriol.

Mae rhagor o wybodaeth ar y modiwlau hyn ar gael yn Llawlyfrau'r Modiwlau a thrwy Moodle, ein Hamgylchedd Rhith-ddysgu. Mae pob un o'r modiwlau yn eich rhaglen yn orfodol. Mae pob modiwl 20 credyd yn cyfateb i 200 awr o ymdrech myfyriwr. Caiff y modiwlau 20 credyd a addysgir eu haddysgu dros un Semester sy'n parhau dros gyfnod o 12 wythnos. Caiff y modiwlau eu cyflawni drwy gyfuniad o ddarlithoedd, gan gynnwys darlithoedd gan ddarlithwyr gwadd o blith arbenigwyr o fyd diwydiant, gweithdai ymarferol, seminarau a thiworialau. Mae amserlen y rhaglen a dyddiadau'r semestrau i'w gweld isod.

Dyma ddyddiadau'r Semestrau ar gyfer y flwyddyn academiaidd hon:

Wythnos yn dechrau:	Wythnos Meistr Rhif
01 Hydref 2018	CYNEFINO
8 Hydref 2018 – 14 Rhagfyr 2018	Semester 1 - Wythnosau 1 - 10
17 Rhagfyr 2018 – 13 Ionawr 2019	GWYLIAU'R NADOLIG
14 Ionawr 2019 – 25 Ionawr 2019	Semester 1 – Wythnosau 11 & 12
28 Ionawr 2019	
04 Chwefror 2019	CYNEFINO
11 Chwefror 2019 – 29 Mawrth 2019	Semester 2 – Wythnosau 1 - 7
08 Ebrill 2019 – 19 Ebrill 2019	GWYLIAU'R PASG
22 Ebrill 2019 – 17 Mai 2019	Semester 2 – Wythnosau 9 - 12
20 Mai 2019	
27 Mai 2018 – 16 Awst 2018	Semester 3 – Wythnosau 1 - 12

Ymrestru Ar-lein

Mae ymrestru yn broses hanfodol a fydd yn cadarnhau eich statws yn fyfyrwr Met Caerdydd ac yn rhoi mynediad i chi i systemau TG Met Caerdydd, gan gynnwys Moodle (llwyfan dysgu Met Caerdydd), talu ffioedd ac, yn bwysig, bydd yn eich galluogi i gael eich MetGerdyn.

O Fedi'r 3^{ydd} 2018 gallwch gwblhau'r broses Hunan-Ymrestru ar-lein oddi ar unrhyw gyfrifiadur drwy system Hunan Wasanaeth Met Caerdydd.

Pan gewch eich **Ebost Ymrestru**, dechreuwch y broses hunan-ymrestru drwy fynd i'r tudalen gwe www.cardiffmet.ac.uk/enrolment a dilyn y canllawiau cam-wrth-gam a fydd wedi'u darparu. Er mwyn cael mynediad i'r adran Ymrestru ar system Hunan Wasanaeth Met Caerdydd, bydd angen i chi fewngofnodi gydag enw defnyddiwr a chyfrinair. **Rhowch yr un enw defnyddiwr a'r cyfrinair i mewn ag y gwnaethoch eu defnyddio yn wreiddiol er mwyn ymgeisio.**

Noder: er mwyn Hunan-Ymrestru, rhaid i'ch statws gyda Met Caerdydd fod yn **UF (Pendant Di-amod)** h.y. rhaid boddhau pob amod a rhaid bod wedi derbyn lle.

Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth

Bydd mynediad gennych i Wasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth Met Caerdydd yn fuan wedi i chi gwblhau eich ymrestru ar-lein. Caiff ebost i gadarnhau'r ymrestru ei anfon atoch gyda manylion mewngofnodi Met Caerdydd. I gael gweld y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ar gael, ewch i www.cardiffmet.ac.uk/library

Cyfnod cynefino

Bydd diwrnod cynefino MSc Rheoli Logisteg a Chadwyni Cyflenwi Rhyngwladol / MSc Rheoli Peirianeg Cynhyrchu yn dechrau am **10.00am ar Ddydd Mercher, Hydref 3^{ydd} 2018** yn adeilad Ysgol Reoli Caerdydd ar Gampws Llandaf (ystafell i'w chadarnhau). Bydd y diwrnod cynefino yn ymdrin â phob un o elfennau hanfodol bywyd academiaidd ôl-raddedig yn ogystal ag yn rhoi gwahanol ddogfennau ac amserlenni pwysig i chi, ac yn esbonio'r modiwlau MSc craidd. Yn ystod yr amser hwnnw, byddwch hefyd yn cwrdd â Chyfarwyddwr eich Rhaglen, eich Tiwtor Blwyddyn, aelodau eraill o'r staff yn ogystal â chwrdd â phob myfyrwr newydd arall ar y rhaglen MSc.

Os bydd amgylchiadau eithriadol yn eich rhwystro rhag bod yn bresennol, rhowch wybod i ni cyn gynted â phosib ar 029 2020 5233 neu ar ebost (ajthomas@cardiffmet.ac.uk)

2. LLAWLYFR Y MYFYRWYR

Yn ystod y Cyfnod Cynefino cewch fanylion ynglŷn â sut i gyrchu Llawlyfr y Myfyrwyr ar-lein. Mae'r ddogfen bwysig hon yn cynnwys gwybodaeth fanwl yn ymwneud â Gweithdrefnau a Rheoliadau'r Brifysgol, yr Ysgol a'r Rhaglen y bydd angen i chi gyfeirio atyn nhw ar hyd eich amser ym Met Caerdydd.

3. HYD Y RHAGLEN

Mae gan y rhaglenni gysylltiadau cryf gydag ystod o gwmnïau gweithgynhyrchu, cynhyrchu a chyflenwi ac maen nhw wedi'u cynllunio'n hyblyg er mwyn cwrdd ag anghenion addysgol a phroffesiynol pob myfyrwr, gan gynnig tri dyfarniad: Tystysgrif Ôl-raddedig, Diploma ôl-raddedig ac MSc. Hefyd gall ymgeiswyr a gaiff eu derbyn i Gynllun Gradd Meistr modiwlaidd gymhwyso ar gyfer y dyfarniadau canolig, sef Tystysgrif Ôl-raddedig a Diploma Ôl-raddedig.

Bydd yr elfen o'r cynllun a addysgir yn cynnwys 120 credyd Lefel M. Gall ymgeisydd a gaiff ei dderbyn i'r cynllun MSc ond na all neu na chaiff wedyn symud ymlaen i gwblhau, yn dibynnu ar nifer y credydau a gafodd pan adawodd, fod yn gymwys i dderbyn un o'r dyfarniadau canlynol:

- O leiaf 60 credyd ar Lefel M = Tystysgrif Ôl-raddedig
- O leiaf 120 credyd ar Lefel M = Diploma Ôl-raddedig

Gall ymgeisydd sy'n cael symud ymlaen i gwblhau, wedi iddo/iddi lwyddo i sicrhau 180 credyd o leiaf ar Lefel M, y bydd 60 ohonyn nhw o leiaf am yr adroddiad technegol annibynnol, fod yn gymwys i dderbyn Gradd Meistr. Bydd rhaid i ymgeisydd gwblhau 120 credyd Lefel M yn llwyddiannus cyn cael symud ymlaen i'r adroddiad technegol annibynnol 60 credyd.

Ymgwymerir â phob modiwl a addysgir drwy'r flwyddyn academaidd sy'n cynnwys dau semester, yn dechrau ym mis Hydref ac yn gorffen ym mis Mai. Wedi i'r myfyrwyr gwblhau 120 credyd yn y modiwlau Lefel M a addysgir, byddan nhw'n symud ymlaen i'r prosiect ymchwil annibynnol a gaiff ei gyflwyno ym Mis Medi.

4. ADDYSGU AC ASESU

Caiff deunyddiau'r cwrs eu cyflwyno drwy gyfuniad o ddarlithoedd, tiwtorialau, seminarau, gweithdai, astudiaethau achos a gwaith maes.

- Darlithoedd yw'r prif ddull o gyflwyno gwybodaeth.
- Mae tiwtorialau yn gyfarfodydd o grwpiau bach o fyfyrwyr gydag aelod o'r staff. Gellir eu defnyddio i ymhelaethu ar y deunydd a gyflwynir yn y darlithoedd, i drafod pynciau, i roi cyngor adferol a chynghori academaidd a bugeiliol.
- Yn y seminarau bydd gofyn i fyfyrwr neu fyfyrwyr gyflwyno gwaith a baratowyd ymlaen llaw i'w cydfyfyrwyr ac aelod o'r staff. Bydd y seminarau'n rhoi profiad gwerthfawr i'r myfyrwyr o ran cyfathrebu a dysgu â'r myfyrwr yn y canol.
- Mae gweithdai yn cynnwys trafodaethau grŵp ar bynciau neu arddangosiadau ac maen nhw'n ymarferion rhyngweithiol ar gyfer datrys problemau.
- Mae Astudiaethau Achos yn broblemau cymhleth go iawn neu ffug y bydd myfyrwyr yn eu dadansoddi ac yn cyflwyno eu hatebion eu hunain.
- Caiff astudiaethau maes, ymweliadau dydd a siaradwyr gwadd eu trefnu i alluogi myfyrwyr i arsylwi'r defnydd masnachol a bywyd go iawn elfennau damcaniaethol eu hastudiaethau. Mae'n bosib y bydd rhaid codi tâl a gallai'r myfyrwyr fod yn gyfrifol am unrhyw dâl mynediad e.e. arddangosfeydd.

5.COSTAU YCHWANEGOL

Noder, yn ogystal â thalu am gostau ymweliadau, codir tâl am lun-gopiö ac am rwymo gwaith myfyrwyr lle bydd hyn yn amod penodol e.e. Adroddiad Technegol.

6.CYNGHORI AC ARWEINIAD

Rhoddir arweiniad mewn tair ffordd:

- i) Drwy Diwtoriaid y Modiwl a fydd yn rhoi cyngor ar ddeunydd eu pwnc;
- ii) Cyfarwyddwr y Rhaglen a fydd yn delio â holl waith gweinyddol y cwrs;
- iii) Drwy Diwtor Blwyddyn.

7 GWERSLYFRAU

Rydym yn sylweddoli bod cyfyngiadau ariannol ar fyfyrwyr mewn addysg ôl-raddedig ac mae prynu rhai gwerslyfrau yn opsiynol. Bydd deunydd darllen a ffynonellau gwybodaeth yn amrywio yn ôl natur benodol y pynciau a fydd yn cael eu hymchwilio gan fyfyrwyr unigol. Caiff rhestrau manwl o'r gwaith darllen gofynnol ac argymelledig eu darparu ar gyfer pob modiwl yn llawlyfrau'r modiwlau.

8 ANABLEDD

Yn ystod y cyfnod cynefino cewch gyfle i ddysgu am y cymorth a fydd ar gael i chi drwy Wasanaethau Myfyrwyr Met Caerdydd. Mae Ymgynghorydd Anabledd gan Met Caerdydd sy'n gallu rhoi cyngor ar faterion anabledd. Cafodd modiwlau'r Ysgol eu harchwilio i adnabod materion sy'n ymwneud â gwahanol anableddau. Os cewch unrhyw broblemau'n ymwneud â modiwlau penodol wrth i chi symud ymlaen drwy'r cwrs, mae croeso i chi roi gwybod i ni er mwyn i ni gael delio â nhw.

9 RHIFAU FFÔN DEFNYDDIOL

Mae tîm y cyrsiau'n barod ac yn gallu helpu gydag unrhyw ymholiadau a allai fod gennych ynglŷn â'r rhaglen. Ond gallai adrannau eraill o fewn Met Caerdydd fod yn fwy cymwys i ateb eich ymholiadau. Dyma restr o nifer o bobl a allai helpu.

Cyfarwyddwr y Rhaglen:

Yr Athro Andrew Thomas

Ffôn: 029 2020 5233

Ebost: ajthomas@cardiffmet.ac.uk

Tiwtor Blwyddyn:

Yr Athro Mark Francis

Ffôn: 029 2020 5679

Ebost: mfrancis@cardiffmet.ac.uk

Swyddfa Ymchwil yr Ysgol Reoli

Ms Adriana Snae Ffôn: 029 2041 6348

Ymholiadau ynglŷn â Derbyn Myfyrwyr:

Ffôn: 029 2041 6010

Ebost: askadmissions@cardiffmet.ac.uk

DOLENNI DEFNYDDIOL

- [Y Llawlyfr Academaidd](#)
- [Llety](#)
- [Costau Ychwanegol](#)
Costau ychwanegol yw unrhyw dreuliau gorfodol neu opsiynol, ar ben y ffioedd dysgu, y bydd angen eu talu gan fyfyrwyr iddyn nhw gael cymryd rhan lawn a chwblhau eu hastudiaethau.
- [Polisi Derbyn](#)
- [Cysgodfa Beiciau](#)
Wedi i chi gyrraedd y campws a chasglu eich cerdyn adnabod byddwch yn gallu gofyn am fynediad i'r gwahanol gysgodfeydd beiciau o gwmpas y campwsau.
- [Mapiau'r Campws a'r MetWibiwr](#)
- [Newyddion Met Caerdydd](#)
- [Chwaraeon a Chyfleusterau Met Caerdydd](#)
- [Undeb Myfyrwyr Met Caerdydd](#) *gan gynnwys gwybodaeth a breichledau i'r myfyrwyr glas*
- [Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd](#)
Os bydd eich rhaglen yn golygu y bydd rhaid i chi ddod i gysylltiad â phlant neu â phobl ifanc neu bobl fregus, bydd rhaid i chi fod wedi cael gwiriad cofnodion troseddol yn rhan o'ch cynnig.
- [Iechyd Galwedigaethol](#)
Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch bresennol, bydd gofyn i bob myfyriwr a fydd yn cymryd rhaglen sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn Ysgol Gwyddorau Iechyd Caerdydd (â chydran lleoliad clinigol yn rhan o'r rhaglen), gymryd rhan mewn asesiad Sgrinio Iechyd Galwedigaethol gorfodol. Yn ogystal, bydd yn ofynnol bod rhai cyrsiau'n cydymffurfio â rhaglen frechu ac imiwneiddio'r Adran Iechyd.
- [Cyllid Myfyrwyr](#)
I gael gwybodaeth ar ffioedd dysgu, disgownt cyn-fyfyrwyr, benthyciadau ac ysgoloriaethau, yn ogystal â gwybodaeth gswllt ar gyfer Gwasanaeth Cynghori Ariannol y Myfyrwyr.
- [Llawlyfr y Myfyrwyr](#)
- [Gwasanaethau Myfyrwyr](#)
I gael cymorth yn ystod eich amser gyda ni o ran eich iechyd, lles, dull byw a gyrfa yn y dyfodol. Y nod yw rhoi'r holl gymorth sydd ei angen arnoch i chi er mwyn sicrhau y bydd eich astudiaethau mor bleserus a llwyddiannus â phosib. Bydd y Gwasanaethau hefyd yn cynnwys cynghori personol, anabledd a'r gaplaniaeth.
- [Dyddiadau'r Tymhorau](#)
- [Rhith Deithiau](#)
Mynnwch olwg arall o gwmpas ein campws a'n cyfleusterau gyda'n rhith deithiau tywys